YN Y MWD

Thema: dŵr a glanweithdra, Wythnos Cymorth Cristnogol

Gwlad dan sylw: Kenya

Nod: i archwilio materion ynglŷn â dŵr a glanweithdra; i ddeall yr her sy'n wynebu pobl ifanc sydd heb ddŵr glân; i godi ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (9-15 Mai 2010) o weledigaeth a gwaith Cymorth Cristnogol i ddileu tlodi.

Adnoddau/paratoadau:

- bag plastig (wedi ei glymu a'i lenwi gyda chlwtyn gwlyb/papur tŷ bach)
- potel o ddŵr brwnt (gallwch ychwanegu mwd)
- cyflwyniad PowerPoint *Yn y mwd* ar gael o www.christianaid.org.uk/learn

Cyflwyniad

1 **Dangoswch sleid 1.** Wedi cyfarch pawb gofynnwch iddynt sefyll. Eglurwch eich bod am ddarllen rhestr o dasgau boreol a dylent eistedd wrth glywed rhywbeth maent wedi ei wneud cyn gadael eu cartref bore 'ma:
- cael cawod
- brwsio dannedd
- defnyddio'r tŷ bach
- cael diod
- golchi dwylo.

Erbyn hyn dylai pawb fod yn eistedd. Gofynnwch a ydynt wedi sylwi ar un peth sy'n cysylltu'r tasgau (yr ateb yw dŵr).

Eglurwch (yn ddifrifol) ei fod yn lwcus eu bod wedi defnyddio dŵr gartref gan fod problem gyda chyflenwad dŵr yr ysgol heddiw. Ni fydd dŵr ar gael ac mae'r awdurdod lleol yn ystyried cau'r ysgol. Efallai bydd tipyn o gynnwrf ymysg y gynulleidfa, felly pan fydd pawb wedi tawelu eglurwch fod y cyngor, yn ffodus, wedi trefnu darpariaeth ar gyfer yr ysgol a'u bod wedi trefnu fod dŵr yfed glân ar gael (dangoswch y botel o ddŵr brwnt) a bagiau plastig gall pawb eu defnyddio i fynd i'r tŷ bach (dangoswch y bag plastig). Yn anffodus ni fydd yn bosib golchi dwylo ond ni ddylai hynny fod yn ormod o broblem.

Gofynnwch a yw pawb yn hapus gyda'r drefn ac a oes cwestiynau? Mae'n siŵr bydd y disgyblion yn methu credu'r trefniadau, felly rhowch funud neu ddau cyn datgelu bod cyflenwad dŵr yr ysgol yn iawn. Ond, er eich bod yn tynnu coes, ni fyddai'n ddoniol pe na fyddai dŵr glân ar gael. Eglurwch pa mor anodd gall bywyd fod heb ddŵr yn y cartref neu'r ysgol hyd yn oed am un diwrnod - pobl yn sychedig, amgylchiadau brwnt ac o bosib yn beryglus.

Gofynnwch a ydynt yn gwybod beth yw'r perygl o beidio cael dŵr (gall atebion gynnwys dysychiad ac afiechydon sy'n dod o ddiffyg glanweithdra). Gallai pethau fod llawer gwaeth – a mwy peryglus - os nad oedd dŵr am gyfnod hir; dychmygwch sut fyddai'r ysgol ar ôl wythnos heb ddŵr, neu fis, neu flwyddyn? Eglurwch:

*Ni fyddai'n bosib golchi dwylo a byddai'r tai bach yn gorlifo ac yn lledaenu afiechydon, ac o bosib byddai'n rhaid i chi yfed dŵr brwnt fyddai'n eich gwneud yn sâl. Mae tua 5,000 o blant yn marw bob dydd o ganlyniad i yfed dŵr peryglus, ac am nad oes ganddynt gyfleusterau glanweithdra fel toiledau a lle i olchi dwylo.**

2 **Dangoswch sleid 2.** *Yn y slymiau sydd o gwmpas Nairobi, prif ddinas Kenya, mae'r sefyllfa rydym wedi sôn amdano eisoes yn realiti dyddiol. Heb allu cael dŵr glân i ymolchi, yfed a glanhau mae'r plant a'u rhieni yn wynebu afiechydon peryglus bob dydd.*

3 **Dangoswch sleid 3.** *Dyma Matopeni. Nid oes gan bobl Matopeni doiledau na chawodydd; ystyr lythrennol 'Matopeni' yw 'yn y mwd'.*

4 **Dangoswch sleid 4.** *Mae'r plant yma ar eu ffordd i gasglu dŵr yn Matopeni. Ond mae'n ddigon posib na fydd y tap yn gweithio. Rhaid trin unrhyw ddŵr a gesglir gyda chemegau i'w wneud yn ddiogel i'w yfed, ond nid yw'r rhan fwyaf o deuluoedd Matopeni yn gallu fforddio talu am hyn, felly maent mewn perygl o ddal afiechydon peryglus megis teiffoid. Sut deimlad fyddai hi i fyw o dan y fath amgylchiadau heb obaith o symud i le gwell? Falle byddem yn teimlo'n ddig, anobeithiol neu'n dorcalonnus.*

5 **Dangoswch sleid 5.** *Ond nid yw'r tri pherson ifanc yma o Matopeni yn anobeithio. Mae Jeremiah (ar y dde), 12 oed, Anastacia (ar y chwith mewn gwyrdd), 13 oed a Winifred (yn y canol mewn oren) 10 oed, eisiau gwneud rhywbeth i newid eu sefyllfa. Maent yn deall i'r dim problemau eu cymuned, ac mae ganddynt syniadau da ar sut i wella pethau. 'Y peth gwaethaf yw pan fod y toiled yn llawn, oherwydd mae'n gorlifo allan o'r tap ac i mewn i'r cwteri. Yna pan fydd hi'n glawio mae'n dod mewn i'r tŷ a gallwn ddal colera [salwch difrifol]. Hoffwn weld y toiledau yn cael eu trwsio a bod mwy yn cael eu hadeiladu, hefyd adeiladu tapiau a thrwsio'r cwteri,' meddai Anastacia.*

6 **Dangoswch sleid 6.** *Dyma lun Jeremiah o Matopeni, sy'n dangos gymaint o her sy'n wynebu'r gymuned yno. Sylwch ar y dŵr brwnt, y sbwriel a'r baw tŷ bach ar y toeau.*

7 **Dangoswch sleid 7.** *Dyma lun sy'n dangos y newidiadau yr hoffai Jeremiah eu gwneud. Sylwch ar yr afon lân, y pwmp 'dŵr da', bylbiau trydan, toeau glân, ystafelloedd ymolchi, toiledau a choed mango. Mae ganddo weledigaeth hyfryd i wella ei gymuned, a'i ysbrydoliaeth yw ei fodryb Veronica!*

8 **Dangoswch sleid 8.** *Penderfynodd Veronica a'i ffrind bod angen iddynt weithredu er mwyn gwella pethau ac maent wedi cychwyn grŵp cymunedol o'r enw 'Arise and Shine' . Maen nhw wedi trefnu casglu sbwriel ac ymgyrchu er mwyn cael gwell dŵr a charthffosiaeth yn Matopeni.*

Mae Jeremiah hefyd eisiau i'w weledigaeth o gymuned newydd droi yn realiti. 'Hoffwn yn y dyfodol ddod o hyd i waith, cael teulu a gallu eu cynnal', meddai. 'Yn yr ysgol dywedodd fy athrawes wrthyf am dynnu lluniau ar gyfer y wal. Rhoddodd hyder i mi a dyna pam dwi nawr yn hoffi dylunio ac eisiau bod yn bensaer. Os ga'i fod yn bensaer gallaf helpu i wella Matopeni.'

Beth allwn ei ddysgu gan bobl fel Veronica a Jeremiah, a sut gallwn wella bywyd yn ein cymunedau a chymunedau o gwmpas y byd?

9 **Dangoswch slide 9.** *Mae hon yn Wythnos Cymorth Cristnogol, ac ym mhob rhan o'r DU ac Iwerddon mae pobl yn gweithio i ddileu tlodi drwy godi arian i gefnogi Cymorth Cristnogol a'r bobl a'r mudiadau rhyfeddol sy'n bartneriaid iddynt.*

Mae Cymorth Cristnogol yn cefnogi pobl fel Veronica a Jeremiah sydd â syniadau da ac sy'n gweithio'n galed i wella bywyd mewn sefyllfaoedd anodd o gwmpas y byd.

cymorth cristnogol

parhad...

Myfyrdod

Heddiw rydym wedi dychmygu'r ysgol heb doiledau a dŵr glân. Gadewch i ni werthfawrogi pa mor ffodus yr ydym i gael dŵr glân yn ein tapiau a thoiledau yn ein hadeiladau. Gadewch i ni fod yn benderfynol i wneud yr hyn a allwn i gadw ein hysgol a'n cymuned leol yn iach ac yn lân, gan feddwl am y bobl ysbrydoledig sy'n gweithio i wella eu cymunedau mewn sefyllfaoedd llawer gwaeth na'n rhai ni.

Gweithredu

Ar gyfer y disgyblion a'r athrawon hynny sydd wedi eu hysbrydoli gan y gwasanaeth ac sydd am wneud gwahaniaeth, dyma rai syniadau:

- trefnwch gasgliad Wythnos Cymorth Cristnogol yn yr ysgol. Gallwch ofyn i'r staff a'r disgyblion i gyfrannu am y fraint o ddefnyddio toiled /ffynnon ddŵr er mwyn dathlu'r ffaith fod cyflenwad dŵr glân ar gael. Am fwy o syniadau a chefnogaeth ar redeg gweithgaredd ewch i **www.caweek.org** er mwyn archebu pecyn codi arian *Unleash Your Talent*.
- gallai'r disgyblion greu posteri, fel Jeremiah, i ddangos pa newidiadau hoffent eu gwneud yn eu hysgol, y gymuned leol neu'n fyd-eang.

*www.unicef.org.uk/campaigns/campaign_detail.asp?campaign=24&nodeid=campaign24&section=9

POVERTY

Gellir defnyddio'r deunydd hwn ar gyfer amcanion addysgiadol, ond i ddosrannu'n ehangach, neu er elw masnachol, rhaid cael caniatâd gan Cymorth Cristnogol.

Ysgrifennwyd gan Catherine Moeran ar gyfer Cymorth Cristnogol 2009.

Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol;
Mae Poverty Over yn nod masnach Cymorth Cristnogol.
© Cymorth Cristnogol, Rhagfyr 2009

Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525

www.caweek.org

cymorth cristnogol